# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

**DYDD** Mawrth, 26 Ionawr 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** D.M. Jenkins (Aelod o’r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
S. Jones, Arweinydd Cymorth Tenantiaeth
S Morgan, Rheolwr Asedau Strategol
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 11.00 - 11.25 yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. COFNOD PENDERFYNIAD 22AIN RHAGFYR 2020

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Rhagfyr 2020 yn gofnod cywir.**

## 3. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai’r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf.**

## 4. DILEU DYLEDION CYN-DENANTIAID

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu cynnwys yr adroddiad gan y byddai datgelu yn arwain at ymyrraeth ormodol a heb ei hangen ym mywydau preifat a theuluol yr unigolion dan sylw.**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad oedd wedi ei lunio'n unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran dyledion cyn-denantiaid ac yn gofyn am ddileu dyledion o fwy na £1,500 gan gyn-denantiaid.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yr achosion a amlinellwyd yn yr adroddiad a rhoddodd ystyriaeth i'r adroddiadau unigol ar gyfer pob un o'r cyn-denantiaid a oedd yn manylu ar y rhesymau dros geisio dileu dyledion. Roedd y rhesymau yn cynnwys amgylchiadau personol.

**PENDERFYNWYD dileu ôl-ddyledion y cyn-denantiaid, fel yr oeddid wedi manylu arnynt yn yr adroddiad, am nad oedd modd eu hadennill**

**5. CONSESIWN BWYD YN HEOL TROSTRE ISAF, LLANELLI**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu cynnwys yr adroddiad gan y byddai datgelu yn rhoi'r awdurdod o dan anfantais faterol mewn unrhyw drafodaethau dilynol â thrydydd partïon a gallai gael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ynghylch y drwydded a roddwyd i'r consesiwn bwyd ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor yn Heol Trostre, Llanelli.

**PENDERFYNWYD terfynu'r drwydded consesiwn bwyd poeth bresennol ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor yn Heol Trostre, Llanelli a llofnodi cytundeb newydd â pherchennog newydd y busnes am weddill y cyfnod consesiwn.**

**6. GOSOD UNED Y GANOLFAN GROESO GYNT, MAES PARCIO HEOL CILGANT, LLANDEILO SY'N MASNACHU FEL G T LOCKSMITHS**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu cynnwys yr adroddiad gan y byddai datgelu yn rhoi'r awdurdod o dan anfantais faterol mewn unrhyw drafodaethau dilynol â thrydydd partïon a gallai gael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad a baratowyd ynghylch gosod y Ganolfan Groeso gynt yn Llandeilo.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r telerau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad ar gyfer gosod y Ganolfan Groeso gynt yn Llandeilo i'r tenant presennol.**

**7. PAFILIWN PEN-Y-GROES**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu cynnwys yr adroddiad gan y byddai datgelu yn rhoi'r awdurdod o dan anfantais faterol mewn unrhyw drafodaethau dilynol â thrydydd partïon a gallai gael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ynghylch gosod Pafiliwn Pen-y-groes i ddarparu caffi cymunedol a chyfleusterau cysylltiedig.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn ymrwymo i gytundeb prydles â Menter Cwm Gwendraeth Elli i ddefnyddio Pafiliwn Pen-y-groes at ddibenion darparu caffi cymunedol a chyfleusterau cysylltiedig.**

__________________________________ ____________________

**AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**